# Swyddog Monitro a Gwerthuso

## Swydd-Ddisgrifiad:

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Llanelli gan deithio ledled Powys, Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion. Mae trefniadau gweithio Hybrid/o bell ar gael. |
| Yn Adrodd I | Rheolwr y Prosiect |
| Telerau/Hyd y Cytundeb | 0.6FTE, Tymor Penodol hyd 31 Mawrth 2030 |
| Cyflog | £27,000 y flwyddyn, yn ôl cyfran |

### Trosolwg o'r Bartneriaeth

Menter uchelgeisiol bum mlynedd yw Porth Gwyrdd wedi'i dylunio i ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi pobl 16-30 oed sydd ar y cyrion yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i mewn i yrfaoedd gwyrdd, cynaliadwy. Mae'r prosiect wedi'i gydgynhyrchu gyda ac er mwyn pobl ifanc sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol, yn enwedig menywod, y rheiny sydd ar gyrion addysg a chyflogaeth, ar incwm isel, ac yn byw mewn ardaloedd gwledig. Arweinir y bartneriaeth gan Foothold Cymru, mewn partneriaeth ag Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a PLANED, gan weithio ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

### Ynglŷn â'r Gronfa a'i Uchelgais

Ariennir prosiect Porth Gwyrdd gan Raglen Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfeydd Segur Llywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Nod y gronfa yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd gwyrdd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n anabl neu o gymunedau ethnig amrywiol.
- Cefnogi'r bobl ifanc hyn i fewn i yrfaoedd gwyrdd trwy ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, a chyflogaeth hirdymor.
- Paratoi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Rhannu gwersi er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion, gan yrru arloesedd a chynhwysiant yn economi werdd Cymru a thu hwnt.

## Pwrpas y Rôl

Bydd y Swyddog Monitro a Gwerthuso'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, a rheoli fframwaith monitro a gwerthuso'r prosiect. Mae'r rôl hon yn hanfodol i sicrhau bod y prosiect yn cyrraedd ei dargedau uchelgeisiol, yn dangos effaith, ac yn rhannu gwersi gyda phartneriaid, ariannwyr, a rhanddeiliaid.

Bydd y Swyddog yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Prosiect, y Rheolwr Prosiect, partneriaid cyflenwi, a Llysgenhadon Cyfoedion er mwyn sicrhau casglu, dadansoddi ac adrodd data cadarn trwy gydol oes y prosiect.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Arwain ar gynllunio, gweithredu, a chaboli parhaus fframwaith fonitro a gwerthuso’r prosiect, wedi'i alinio â gofynion y cyllidwr a chanlyniadau'r prosiect.
- Datblygu a rheoli systemau ar gyfer casglu data meintiol ac ansoddol ar weithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau'r prosiect (e.e. arolygon, cyfweliadau, astudiaethau achos, grwpiau ffocws).
- Cydlynu casglu data rheolaidd gan staff y prosiect, partneriaid, cyflogwyr, a chyfranogwyr, gan sicrhau ansawdd data o safon uchel, cysondeb, a chyfrinachedd.
- Dadansoddi data i ddilyn cynnydd yn erbyn targedau, adnabod tueddiadau, a dylanwadu ar gyflawni a gwella'r prosiect.
- Cynhyrchu adroddiadau prydlon, hygyrch, a chraff at ddefnydd mewnol, cyllidwyr, a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys gwerthusiadau blynyddol a diwedd y prosiect.
- Cefnogi cyd-gynhyrchu a diweddaru Llawlyfr Porth Gwyrdd, gan sicrhau bod gwersi ac arfer gorau yn cael eu nodi a'u rhannu.
- Hwyluso gweithgareddau gwerthuso cyfranogol, gan gynnwys hyfforddi a chefnogi Llysgenhadon Cyfoedion i gyd-gwerthuso agweddau ar y prosiect.

- Cyfrannu at ledaenu gwersi’r prosiect, gan gynnwys cyflwyniadau, briffio polisi, a chynnwys digidol (e.e., blogiau, ffeithluniau).
- Sicrhau bod gweithgareddau monitro a gwerthuso yn gynhwysol ac yn hygyrch, gan adlewyrchu amrywiaeth cyfranogwyr y prosiect.
- Cefnogi'r Rheolwr Prosiect a phartneriaid wrth ymateb i gwestiynau cyllid, archwiliadau, a cheisiadau gwerthuso.
- Cadw i fyny â'r arfer gorau ym maes monitro, gwerthuso, a mesur effaith, yn enwedig yn y sectorau ieuenctid, cynhwysiant, a sgiliau gwyrdd.

# Manyleb y Person

## Hanfodol

- Addysg i lefel gradd gyda gradd mewn pwnc perthnasol.
- Profiad yn dylunio a darparu fframweithiau monitro a gwerthuso ar gyfer prosiectau cymhleth, aml-bartner.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru.
- Sgiliau cryf yn casglu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol.
- Gallu cynhyrchu adroddiadau a chyflwyniadau clir, hygyrch ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Gallu gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol ar draws sawl sefydliad.
- Profiad o ddefnyddio systemau CRM, offer arolwg, a phlatfformau rheoli data.
- Sgiliau trefnu, cyfathrebu a phersonol rhagorol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.
- Sylw cryf at fanylion a’r gallu i reoli blaenoriaethau.

## Dymunol

- Addysg i lefel ôl-raddedig.
- Profiad yn y meysydd ieuenctid, cyflogaeth, neu sgiliau gwyrdd.
- Gwybodaeth am ddiogelu ac ymarfer gorau diogelu data.
- Sgiliau iaith Gymraeg.
- Profiad gyda dulliau gwerthuso cyfranogol/cyd-gynhyrchu.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Profiad gyda dulliau ymchwil weithredu.
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc anabl a/neu'r rheiny o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- Profiad o gefnogi gwerthuso dan arweiniad cymheiriaid neu ymgysylltu ag ieuenctid.
- Cynefindra â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu raglenni grant tebyg.

## Arall

- Maer partneriaeth wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a chefnogi llesiant staff.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach DBS.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ar draws y pedair sir sy'n rhan o'r prosiect.